# Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

**2017 dccc 3**

## RHAN 5

DARPARIAETH ATODOL

## PENNOD 4

COSBAU O DAN Y DDEDDF HON

*Cosbau sy'n ymwneud â chofrestru*

### 66 Cosb am fethu â chydymffurfio â gofynion eraill sy'n ymwneud â chofrestru

(1) Mae person yn agored i gosb nad yw'n fwy na £300 os yw'r person yn methu â chydymffurfio â gofyniad a osodir gan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau a ganlyn—

(a) adran 35(2) (cais cofrestru);

(b) adran 36(1) i (4) (hysbysiad am newid neu anghywirdeb);

(c) adran 37(1) neu (2) (cais i ganslo cofrestriad).

(2) Ond nid yw person yn agored i gosb o dan yr adran hon mewn cysylltiad â methu â chyflwyno cais neu roi hysbysiad o fewn cyfnod cyfyngedig os yw'r person yn gwneud hynny o fewn cyfnod pellach a ganiateir gan ACC.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 66 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 97(2)**

**I2** A. 66 mewn grym ar 25.1.2018 gan O.S. 2018/35, **ergl. 2(t)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017, Adran 66.